| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Addysg a'r Economi |
| **DYDDIAD** | 18 Gorffennaf 2024 |
| **TEITL** | Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus |
| **AWDUR** | Roland Evans<br>Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Dyfrig Siencyn<br>Cyng. Nia Jeffreys |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

**1.1.** Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 2 Chwefror 2023, craffwyd Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 cyn i'r Cabinet ei fabwysiadu. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cynllun, uchelgais a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer Economi Ymweld Cynaliadwy, addasrwydd strwythur gweithredu ar y cyd gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol a threfniadau sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy i lywio gweithrediad y Cynllun Gweithredu. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i graffu cynnydd hyd yma a'r Cynllun Gweithredu.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

**2.1.** Gallai fod yn amserol i'w graffu yn dilyn sefydlu'r trefniadau llywodraethu:

- Cynnydd hyd yma
- Oes cynllun gweithredu mewn lle?
- Pa fesuryddion defnyddir i fonitro cynnydd/effaith?

**3. Crynodeb a'r Materion Allweddol**

**3.1.** Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad i Aelodau o'r hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma gan ganolbwyntio ar:

- Y cefndir i ddatblygiad Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035;
- Y Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng y Cyngor a'r Parc Cenedlaethol;
- Y strwythur gweithredu newydd sydd wedi ei sefydlu a Phartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035;
- Y Cynllun Gweithredu byw;
- Gwybodaeth am y drefn o fesur er mwyn monitro cynnydd ac effaith

**3.2.** Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu dderbyn y diweddariad ac i graffu'r cynnydd, y Cynllun Gweithredu a'r Mesuryddion.

**4. Cefndir: Y Cynllun Strategol**

**4.1.** Mae'r Cyngor wedi bod yn ystyried sefyllfa twristiaeth a'r economi ymweld o fewn yr ardal ers nifer o flynyddoedd gyda llawer o drafodaethau a gweithdai wedi eu cynnal cyn ac yn ystod y pandemig Covid-19.

**4.2.** Mae Cynllun y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i Gwynedd Lewyrchus ac o fewn y flaenoriaeth hon mae prosiect Hyrwyddo ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy. Mae datblygu'r Cynllun hwn yn ran o'r prosiect blaenoriaeth yma. Mae bid am adnoddau cyllidol gwerth £46,040 trwy Gynllun y Cyngor i gyflogi Cydlynydd Twristiaeth Cynaliadwy i gefnogi'r gwaith yma wedi llwyddo.

**4.3.** O gydnabod pwysigrwydd ardal Eryri i'r Cynllun, arwyddwyd Memorandwm o ddealltwriaeth rhwng Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar 26 Tachwedd 2021 gyda'r nod o:

*Gydweithio'n effeithiol ac effeithlon mewn partneriaeth i wireddu Gweledigaeth ac Egwyddorion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 i warchod a hyrwyddo gwerthoedd arbennig yr ardal.*

**4.4.** Mae datblygiad Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035, ei strwythur gweithredu a'i fesuryddion yn ffrwyth llafur y Memorandwm hwn.

**4.5.** Ers arwyddo'r Memorandwm, mae trafodaethau wedi parhau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch eu hymrwymiad hwythau i'r Cynllun ar gyfer ardaloedd Conwy wledig sy'n ran o Barc Cenedlaethol Eryri. Bellach mae cytundeb i ymrwymo i'r bartneriaeth a bydd memorandwm diwygiedig yn cael ei ffurfio rhwng y 3 partner sector cyhoeddus.

**4.6.** Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 yw'r unig gynllun o'i fath yng Nghymru ac mae'n un o'r ychydig rai sy'n bodoli trwy Brydain. Yn hyn o beth mae'r Cynllun, ei ddulliau gweithredu a'i fesuryddion yn arloesol ac yn braenaru tir newydd.

**4.7.** Bu i'r Cyngor ymgynghori'n helaeth ar ddatblygu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 gan gynnal nifer o weithdai a rhoi ystyriaeth i arfer da mewn lleoliadau eraill ar draws y byd gan gynnwys Seland Newydd, Denmarc, Slofenia, Ynysoedd Aran, Park City a Jackson Hole (UDA).

**4.8.** Lansiwyd Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog ar 25 Medi 2023.

**4.9.** Gweledigaeth y Cynllun newydd yw:

*Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri.*

**4.10.** Mae'r Cynllun Strategol yn cynnwys 3 egwyddor wedi eu selio ar bileri twristiaeth cynaliadwy UN Tourism, Asiantaeth Twristiaeth y Cenhedloedd Unedig.

**4.11.** Dyma'r egwyddorion a'r amcanion sydd wedi eu cytuno:

**Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth**

- Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau gyda phwyslais ar falchder bro
- Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored

**Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd**

- Economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld a'r ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol
- Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel ac wrth ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.

**Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais**

- Economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at lesiant y gymuned trwy'r flwyddyn
- Economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig cyfleon cyflogaeth o ansawdd i bobl leol trwy'r flwyddyn

- Economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol

**4.12.** Yn dilyn lansio'r Cynllun mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddi i ddatblygu strwythur partneriaeth newydd er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu a monitro cynnydd.

## 5. Strwythur y Bartneriaeth

**5.1.** Mae egwyddorion gweithredu wedi eu cytuno ar gyfer y bartneriaeth sef:

5.1.1. Arweinyddiaeth Strategol ar bob lefel i yrru'r weledigaeth a gweithredu ar lawr daear

5.1.2. Llywodraethiant syml

5.1.3. Cydlynnu ac integreiddio (llorweddol a fertigol ar draws pob sefydliad)

5.1.4. Gwneud defnydd effeithiol o adnoddau ac asedau

5.1.5. Gwell gwybodaeth wrth wneud penderfyniadau

5.1.6. Cynnwys a pherchnogaeth gan nifer

5.1.7. Gyrru newid ac arloesi.


**5.2.** Mae'r triongl isod yn darlunio'r egwyddorion gweithredu sydd wedi eu mabwysiadu:




5.2.1. Bwriedir i'r bartneriaeth gael ei gweinyddu mewn partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

5.2.2. Wrth geisio datblygu strwythur y bartneriaeth, rhoddwyd ystyriaeth i fodelau gweithredu mewn ardaloedd eraill o'r byd a derbyniwyd cyngor arbenigol gan yr Athro Terry Stevens sy'n arbenigo yn y maes rheolaeth cyrchfan a thwristiaeth cynaliadwy.

5.2.3. Mae'r isod yn darlunio strwythur Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035:




5.2.4. Mae Aelodaeth ac amlder cyfarfodydd y strwythur newydd i'w weld yn **Atodiad A**. Mae haen ychwanegol i'r strwythur uchod sy'n haen weithredol i gefnogi'r bartneriaeth a sicrhau perchnogaeth gan randdeiliaid ehangach a'r sector cyhoeddus.

5.2.5. Mae model y bartneriaeth yn ceisio adlewyrchu'r egwyddorion gweithredu trwy sefydlu:

5.2.5.1. Grŵp Sector Twristiaeth i sicrhau perchnogaeth eang.

5.2.5.2. Grŵp Gweithredu i fonitro a sicrhau gweithrediad.

5.2.5.3. Bwrdd Llywio i gynnig arweiniad strategol, cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu ac i fod yn lais strategol ar gyfer yr holl economi ymweld.

5.2.6. Mae'r Bwrdd Llywio'n cael ei gadeirio ar y cyd gan Arweinydd Cyngor Gwynedd a Chadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

5.2.7. Rhan arloesol o'r model newydd yw'r Grŵp Sector Twristiaeth. Mae'r Grŵp Sector Twristiaeth yn dwyn ynghyd y sector twristiaeth a'r sector cymunedol er mwyn adnabod blaenoriaethau a materion mae hefyd yn monitro gweithrediad y Cynllun Gweithredu.

5.2.8. Bu i'r Grŵp Sector gyfarfod 2 waith yn barod yn ystod 2024 er mwyn bwydo gweithgareddau i'r Cynllun Gweithredu ac er mwyn ethol cadeiryddion.

5.2.9. Er mwyn sicrhau cydbwysedd a throsolwg cytbwys o'r economi ymweld, penderfynwyd ethol 2 gyd-gadeirydd a 2 gyd-is-gadeirydd i'r Grŵp - y naill o'r sector cymunedol a'r llall o'r sector busnes. Ar gyfer y flwyddyn nesaf, etholwyd y canlynol:

5.2.9.1. Cymunedol: Einir Young, Eco-Amgueddfa Llyn (Cyd-gadeirydd) a Ceri Cunnington, Cwmni Bro Ffestiniog, (Cyd-is-gadeirydd)

5.2.9.2. Busnes: Michael Bewick, Greaves Cyf., Blaenau Ffestiniog (Cyd-gadeirydd) ac Annwen Jones, Bythynnod Gwyliau Tŷ'n Rhos, Criccieth (Cyd-is-gadeirydd)

5.2.10. Mae lleisiau'r cyd-gadeiryddion yn bresennol ym mhob elfen arall o strwythur y Bartneriaeth er mwyn sicrhau llais i'r diwydiant a'n cymunedau yn ein trafodaethau.

## 6. Y Cynllun Gweithredu

**6.1.** Datblygwyd Cynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 yn dilyn llawer o waith ymgynghori gan gynnwys:

6.1.1. Y trafodaethau gafwyd wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol oedd yn adnabod y prif heriau a'r cyfleon i'r ardal yn deillio o'r economi ymweld gydag Aelodau, cymunedau, busnesau a phartneriaid.

6.1.2. Trafodaethau gyda phartneriaid y sector cyhoeddus.

6.1.3. Trafodaethau gyda'r Grŵp Sector Twristiaeth.

6.1.4. Mewnbwn gan gydweithwyr yng Nghyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Conwy.

6.1.5. Ystyriaeth o flaenoriaethau adnabuwyd o fewn i Gynlluniau Ardal Ni.

**6.2.** Mae hon yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu a'i datblygu fel y bydd angen. Cynllun Gweithredu ar gyfer y cyfnod 2024 – 2025 yw hon.

**6.3.** Mae copi o'r Cynllun Gweithredu i'w weld yn **Atodiad B**. Mae 3 thema penodol wedi eu hadnabod ar gyfer gweithredu gyda nifer o weithgareddau neu brosiectau yn cael eu cynnwys o fewn y thema:

6.3.1. Ymchwil, Sgiliau a Datblygu

6.3.2. Marchnata a Chyfathrebu

6.3.3. Prosiectau Cyd-weithio

**6.4.** Mae'r Cynllun Gweithredu'n adnabod y canlynol:

6.4.1. Yr egwyddor perthnasol o'r Cynllun Strategol

6.4.2. Yr her neu'r cyfle adnabuwyd wrth ymgynghori

6.4.3. Yr weithred i ymateb

6.4.4. Pwy sy'n arwain

6.4.5. Yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu

6.4.6. Amserlen

6.4.7. Sut fydd effaith y weithred yn cael ei fesur.

**6.5.** Wrth reswm, mae rhai gweithgareddau yn fwy aeddfed na'i gilydd ac amlygir y prosiectau sydd gyda cyllid wedi ei gadarnhau mewn glas. Os bydd gweithgareddau eraill yn dod i'r fei – bydd rhain yn cael eu cynnwys yn y Cynllun.

**6.6.** Gyda Chynllun Gweithredu 2024-25 mae llawer o weithgareddau wedi eu cynllunio cyn i'r Cynllun gael ei fabwysiadu. Gyda threigl amser, y bwriad fydd i'r Cynllun Strategol lywio a dylanwadu'n llawn ar y prosiectau fydd yn y Cynllun Gweithredu.

## 7. Monitro Cynnydd a Mesur Effaith

**7.1.** Bydd cynnydd wrth weithredu'r Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredu yn ran greiddiol o strwythur newydd y bartneriaeth gyda disgwyl i'r Grŵp Sector Twristiaeth, y Grŵp Gweithredu a'r Bwrdd Llywio oll fonitro cynnydd yn eu cyfarfodydd.

**7.2.** Mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnig amserlenni a deilliannau clir a chorff arweiniol fel y gellir monitro cynnydd gweithredu a chyflawni yn eu herbyn.

**7.3.** Yn draddodiadol mae effaith yr economi ymweld yn cael ei fesur ar sail STEAM (Scarborough Tourism Economic Assessment Monitor) sy'n canolbwyntio ar niferoedd a gwerth ymwelwyr i'r economi leol.

**7.4.** Tra bod cydnabyddiaeth bod hwn yn un dull o fonitro effaith, mae teimlad cryf bod angen i ni fod yn mesur effaith twristiaeth yn llawer mwy holistaidd ac yn gytbwys o ran yr egwyddorion sydd wedi eu cytuno arnynt gan edrych ar effeithiau amgylcheddol, cymunedol a ieithyddol yn ogystal.

**7.5.** Bu Grŵp Tasg Ymchwil yn gweithio yn y maes yma gan gyd-weithio gyda Uned Ymchwil Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, y Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau yn ogystal â Phrifysgol Bangor. Trafodwyd hefyd arfer da o ardaloedd eraill – yn benodol Denmarc a Slofenia.

**7.6.** Deilliant y grŵp tasg yma oedd sefydlu 'dashfwrdd' fydd yn rhoi darlun cytbwys i ni o effaith yr economi ymweld yn yr ardal. Er bod nifer o fesuryddion o fewn y 'dashfwrdd' y tu hwnt i reolaeth y partneriaid ac o bosib yn ehangach na'r economi ymweld ac ymwelwyr

- mae'n declyn newydd y byddwn yn medru ei ddefnyddio i fonitro'r eco-system economi ymweld yn ehangach nac erioed o'r blaen. Mae'r 'dashfwrdd' i'w weld yn **Atodiad C**.

**7.7.** Mae'r 'dashfwrdd' yn cynnwys 26 o fesuryddion y gellid eu tracio dros amser, ond er mwyn mireinio'r mesuryddion hyn ac adnabod mesuryddion craidd sydd o dan ddylanwad y partneriaid, mae'r isod wedi eu cytuno arnynt i'w monitro'n rheolaidd. Eto gall rhain addasu neu newid wrth weithredu:

| Egwyddor ac Amcan | Mesuryddion hir-dymor |
|---|---|
| **Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth**<br>• Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau gyda phwyslais ar falchder bro<br>• Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored | % o drigolion y Sir a holwyd yn dweud bod twristiaeth yn eu hardal yn cael canlyniad cadarnhaol<br><br>% o drigolion y Sir a holwyd yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad cadarnhaol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru<br><br>% o fusnesau a mentrau economi ymweld sydd wedi cael achrediad Pencampwr Twristiaeth Cynaliadwy GaE2035<br><br>Nifer yr unigolion wedi cofrestru ar gynllun Llysgennad Gwynedd / Eryri |
| **Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd**<br>• Economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld a'r ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol<br>• Economi ymweld sy'n arweinydd byd mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel ac wrth ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd. | % o drigolion y Sir a holwyd yn deud bod twristiaeth yn cael dylanwad negyddol ar yr amgylchedd a byd natur<br><br>Nifer yn defnyddio'r gwasanaeth Sherpa (ceisio adnabod mesuryddion trafnidiaeth ac amgylchedd pellach) |
| **Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais**<br>• Economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at lesiant y gymuned trwy'r flwyddyn<br>• Economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig cyfleon cyflogaeth o ansawdd i bobl leol trwy'r flwyddyn<br>• Economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol | Gwariant ymwelwyr dros nos<br><br>Gwariant ymwelwyr dydd<br><br>Nifer yn cael eu cyflogi oddi fewn i'r sector twristiaeth |

**7.8.** Fe welir o'r Cynllun Gweithredu bod nifer o brosiectau ymchwil posib wedi eu hadnabod. Mae trafodaethau cadarnhaol yn parhau gyda Phrifysgol Bangor i beilota a datblygu

ymchwil penodol ar gyfer yr ardal, yn ogystal â phrosiectau sydd hefyd yn cael eu datblygu gan bartneriaid ehangach.

**7.9.** Eisoes mae 2 brosiect ymchwil peilot wedi eu cynnal yn Nyffryn Ogwen – un '*Manteisio ar Safle Treftadaeth y Byd UNESCO Llechi Cymru a datblygu twristiaeth gynaliadwy yng Ngogledd Orllewin Cymru'* yn edrych ar ganfyddiadau pobl ifanc o'r dynodiad a'r llall *'Y Gymraeg a'r economi ymweld gynaliadwy: Astudiaeth beilot Bethesda'* er mwyn cael mewnwelediad cychwynnol i rai o'r heriau, a'r cyfleoedd, a all godi yn sgil y dynodiad treftadaeth byd ar gynaladwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

## 8. Ymgynghori

**8.1.** Mae ymgynghori helaeth wedi ei gynnal wrth ddatblygu Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 fel a welir o'r wybodaeth uchod. Mae pob elfen o ddatblygu a gweithredu'r Cynllun yn hollol ddibynnol ar weithio mewn partneriaeth ac ymgynghori.

## 9. Adnoddau

**9.1.** Er bod y Cabinet wedi cymeradwyo £46,040 ar gyfer penodi Cydlynydd Twristiaeth Cynaliadwy, mae'r gyllideb ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gweithredu yn ddibynnol ar dderbyn nawdd allanol ychwanegol. Yn ystod 2024-25 mae arian Ffyniant Gyffredin a Llywodraeth Cymru wedi eu sicrhau ar gyfer gweithredu.

**9.2.** Bydd ein llwyddiant i gyflawni'r Cynllun Gweithredu yn ddibynnol ar y rhaglenni cyllidol fydd ar gael yn y dyfodol. Mae cyfleon posib yn ogystal yn gallu deillio o unrhyw Ardoll Ymwelwyr allai gael ei sefydlu - pe byddai'n dod yn weithredol yn ardal Gwynedd. Pe byddai cytundeb i weithredu ardoll o'r fath – ni fyddai'n ymarferol bosib gwneud hynny tan o leiaf Ebrill 2027.

## 10. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**10.1.** Mae pob elfen o ddatblygiad Cynllun Gwynedd ac Eryri 2035 wedi cynnwys **trigolion a defnyddwyr gwasanaeth**. Mae mwy o waith ymgynghori wedi digwydd ar y Cynllun hwn nac unrhyw gynllun twristiaeth neu reolaeth cyrchfan arall a ddatblygwyd gan y Cyngor.

**10.2.** Mae **cydweithio** a phartneriaeth yn greiddiol i lwyddiant y Cynllun ac mae strwythur partneriaeth newydd wedi ei sefydlu i weithredu.

**10.3.** Mae Cynllun Gweithredu, y Bartneriaeth a dulliau monitro ac ymchwil newydd wedi eu sefydlu er mwyn **atal** ac ymateb i broblemau all godi yn sgil yr economi ymweld.

**10.4.** Mae'r Cynllun yn weithredol hyd 2035 sy'n golygu ein bod yn ceisio ymateb mewn ffordd gydlynol, cytbwys a chydweithredol dros yr **hirdymor** er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb ac yn gwneud gwahaniaeth er mwyn sicrhau economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri.

**10.5.** Mae **integreiddio** yn ran hanfodol o'r Cynllun Gweithredu a'r Bartneriaeth newydd gyda chyfarfodydd a llais wedi ei sicrhau i gyrff cyhoeddus eraill ac i sicrhau cydlyniad a chydweithio gyda phartneriaid trwy'r strwythur. Mae'r Cyngor, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri oll wedi ymrwymo i gyd-weithio ac i integreiddio'r Cynllun i'n gweithgareddau ehangach.

## 11. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

**11.1.** Paratowyd Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol y Cynllun – mae hwn i'w weld yn **Atodiad CH**. Mae canlyniad yr asesiad yn rhagweld effaith sylweddol bositif ar rai grwpiau a charfannau ac yn awgrymu y gallai peidio gweithredu'r Cynllun arwain at ganlyniadau negyddol.

**11.2.** Bydd materion amgylcheddol, ieithyddol a chydraddoldeb yn derbyn sylw trwy'r mesuryddion newydd a'r 'dashfwrdd'.

**12. Camau Nesaf**

**12.1.** Gyda Phartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 bellach wedi sefydlu a'r Cynllun Gweithredu cyntaf wedi ei fabwysiadu, y camau nesaf fydd bwrw ati i weithredu, monitro ac adrodd ar gynnydd trwy'r haenau o fewn i'r Bartneriaeth.

**12.2.** Bwriedir cynnal Uwch-gynhadledd / Fforwm flynyddol newydd Gwynedd ac Eryri 2035 yn ystod yr Hydref / Gaeaf 2024 fydd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith, trafod cynnydd ac hefyd amlygu arfer dda o ardaloedd eraill sy'n ceisio sefydlu economi ymweld cynaliadwy.

**Gwybodaeth Cefndir**

**Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu 04/02/2021**

**Tudalen Y Cynllun ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr** – ymchwil, nodiadau briffio, cyflwyniadau.

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| **Atodiad A** | Strwythur ac Aelodaeth Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 |
| **Atodiad B** | Cynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 |
| **Atodiad C** | 'Dashfwrdd' Mesuryddion |
| **Atodiad CH** | Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol |